



GOL HAFAN Y MÔR
Heywood Lane,
Dinbych y Pysgod/ Tenby,
SA70 8BZ
☎ 01834-843248

✉ admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk

f Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod



ysgolhafanymor.cymru



@hafanymortenby

15.10.2021

Annwyl rieni a gofalwyr

Noson rieni rhithiol - APWYNTIADAU'N CAU 9YB 18.10.2021

Mae nosweithiau rhieni yn rhithiol wythnos nesaf. Mae pob rhiant wedi derbyn manylion trwy ParentMail. Mae'r system apwyntiadau yn cau ar ddydd Llun, 18.10.21 am 9yb.

Os nad ydych wedi gwneud apwyntiad neu os nad ydych yn mynychu apwyntiad noson rieni chi, ni fydd cyfle i siarad gydag athro/ athrawes ddosbarth eich plentyn am ddatblygiad, cynnydd, targedau na lles eich plentyn tan Fawrth 2022 (cyfarfod rhieni nesaf).

Cwrdd Diolchgarwch

Byddwn yn cynnal cwrdd diolchgarwch rhithiol ar ddydd Gwener. Mae'r Cyngor ysgol yn gofyn i bob plentyn ddod â **rhodd o fwydydd sych neu dun i'r ysgol erbyn dydd Iau, Hydref 21ain** fel y gallwn roi'r eitemau hyn i PATCH <http://patchcharity.org.uk/>

Ffotos Bluestone

Os hoffech brynu llun eich plentyn / plant, mae angen dychwelyd y ffotos erbyn dydd Iau, 21.10.21.

Cystadleuaeth enwi'r ddraig

Fel rhan o ddatliadau Diwrnod Shwmae rydym yn cynnal cystadleuaeth i 1 plentyn ennill Draig (tegan). Yn anffodus nid oes enw na chartref gyda'r ddraig ac mae hi'n drist iawn. Hoffwn i'r plant feddwl am enw ar gyfer y ddraig dros hanner tymor a dod mewn ag enw i'r ddraig ar ddydd Llun, Tachwedd 1af. Byddwn yn dewis enw allan o het a'r plentyn sydd â'r enw buddugol bydd yn ennill y ddraig a mynd adref gyda hi!



Siop Ffrwythau

Os hoffech i'ch plentyn/plant dderbyn ffrwyth yn yr ysgol hanner tymor hwn (7 wythnos) a wnewch chi drosglwyddo £7 trwy daliad BACS erbyn dydd Gwener 22.10.2021, mae'r manylion isod. Sicrhewch eich bod yn rhoi cyfeirnod i'r taliad fel y canlynol;

- MariP - Yr1 - FS
- Enw cyntaf, llythyren gyntaf ei gyfenw, blwyddyn ysgol a FS (Fruit Shop).

Account no: 63985725

Sort Code: 20-45-45

Gwersi Offerynnol

Os ydy'ch plentyn yn derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol, rydych wedi derbyn ebost trwy ParentMail ynglyn a chyfraniad tuag at y gwersi o £60 am y flwyddyn. A wnewch chi dalu hwn erbyn dydd Gwener 22.10.21.

Diwrnod Shwmae

Cafodd y plant llawer o hwyl wrth ddatlu diwrnod Shwmae trwy wisgo coch, gwyn a/neu wyrdd, gwranddo ar fiwsig Gymraeg trwy seinyddion Bluetooth ac MP3 newydd yr ysgol (Diolch i Aled Lewis am osod popeth!) a chymryd rhan mewn amryw o weithgareddau! Buodd disgyblion y Criw Cymraeg yn creu cacennau Shwmae ar ddydd Iau gyda Mrs Lewis - diolch yn fawr! Daeth Bronwen Lewis, Seren Byd Pop Miwsig Cymraeg i ddiddanu'r plant a'u rhieni yn ystod y prynhawn. Diolch i bawb am eich cefnogaeth!

Ymweliad Welsh Whisperer - 19.10.2021

Mi fydd canwr y Welsh Whisperer yn ymweld â'r ysgol ar ddydd Mawrth, Hydref 19eg. Mae Criw Cymreictod yr ysgol yn gofyn i bob disgybl wisgo fel y Welsh Whisperer a dod â chyfraniad o £1 er mwyn rhoi tuag at dalu am ei gostau.

Blas o ganeuon Welsh Whisperer

<https://www.youtube.com/watch?v=EfJyiO-JOCU&t=40s>

https://www.youtube.com/watch?v=cf3_zuAxyYM



Prynhawn agored i rieni Derbyn, Meithrin a darpar rieni - 15.11.2021 + 24.11.2021

Byddaf yn cynnal taith o amgylch yr ysgol rhwng 4-5yh ar 15fed a 24ain Tachwedd ar gyfer rhieni plant dosbarth Derbyn, Meithrin, Cylch Meithrin a darpar rieni. Gyda'r holl gyfyngiadau sydd wedi bod yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, rwy'n ymwybodol nid yw rhieni wedi derbyn cyfle i ymweld â'r ysgol a theimlaf fod yn bwysig eich bod yn medru gwneud hyn.

Os ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddarpar rieni sydd heb ymweld â'r ysgol, rhowch wybod iddyn nhw am y digwyddiad. Gofynnaf yn garedig, os ydych hefyd yn adnabod unrhyw rieni nad ydynt wedi ystyried addysg gyfrwng Cymraeg ac efallai hoffent edrych o gwmpas yr ysgol a'n darpariaethau i ddod. Gofynnaf yn garedig i bawb sy'n dymuno mynd ar daith o amgylch yr ysgol i roi gwybod i'r ysgol er mwyn cadw lle cyn y diwrnod - admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk neu 01834 843248.

Bydd angen i bawb sy'n mynychu sicrhau eu bod yn dilyn rheolau'r ysgol parthed Covid19 - gwisgo gorchudd hwyneb, cadw pellter digonol wrth rieni eraill tra eich bod yn yr adeilad a bydd gwiriadau ychwanegol yn digwydd wrth i chi ddod mewn i'r adeilad. Os ydych yn neu wedi bod yn sâl gydag unrhyw symptomau Covid19 plis peidiwch â mynychu'r daith.

Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Tristan, Seren H, Riva, Archie, Wilson, Ryan, Izzy, Libby, Eden, Maximus a Ralph am fod yn sêr yr wythnos hon - 15.10.2021!

SpellBlast & NumberBlast

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol:

SpellBlast

Bl. 2 - Carys
Bl. 3 - Joey
Bl. 4 - Chloe
Bl.5 - Lola D
Bl. 6 - Sam

J2NumberBlast

Pencampwyr

Dai
Joseff
Leo
Charlie
Daisy

Cofion gorau a diolch i chi i gyd am eich amynedd a'ch cydweithrediad parhaus

Mrs Griffiths
Pennaeth